























Pwy sy'n gwneud penderfyniadau?

 Weithiau,  mae'n anodd  gwybod  pwy dylech chi  gysylltu â  i wneud newid.

 Gallai'r  wybodaeth  yma  fod o  help  i  chi.


 Hefyd,  gallwch chi  ofyn  i  oedolyn  roi  help  i  chi.






Aelodau Senedd Cymru


60



Mae 60 o Aelodau Senedd Cymru.



Maen nhw'n gwneud cyfreithiau a phenderfyniadau dros Gymru.




Dim ond ar gyfer rhai pethau maen nhw'n gwneud hyn,

e.g.



fel iechyd ac addysg.





Aelodau Senedd y Deyrnas Unedig


Mae yna **650** Aelod o Senedd y DU. Maen nhw'n gweithio yn San Steffan.

Maen nhw'n gwneud cyfreithiau a phenderfyniadau dros y Deyrnas Unedig.


Dim ond ar gyfer rhai pethau maen nhw'n gwneud hyn,

e.g. fel yr heddlu a mewnfudo.





Awdurdod Lleol



Mae'r Deyrnas Unedig wedi'i rhannu'n awdurdodau lleol.




22



e.g.

Mae 22 awdurdod lleol yng Nghymru, e.e. Powys, Pen-y-bont.




Awdurdodau lleol sy'n gwneud penderfyniadau am bethau yn yr ardal lleol.

e.g.



Pethau fel llyfrgelloedd, ffyrdd a thai.





Cynghorau Cymuned



Mae gan rai llefydd gynghorau cymuned.



Cynghorau cymuned sy'n gwneud penderfyniadau am eich cymuned.

e.g.



Pethau fel meysydd chwarae a goleuadau stryd.

